# HYSBYSIAD STATUDOL

## Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn ardal Saltney, Sir y Fflint

## CYNGOR SIR Y FFLINT

Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF

## RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN

Yn unol ag Adrannau 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae Cyngor Sir y Fflint, sef yr Awdurdod Lleol, ar ôl ymgynghori â'r unigolion gofynno, yn cynnig ad-drefnu darpariaeth addysg gynradd yn ardal Saltney yn Sir y Fflint drwy roi'r mesurau canlynol ar waith:

**1. Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd newydd arfaethedig Saltney**

i. Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Saltney Ferry Road, Saltney Ferry, Sir y Fflint CH4 8TF, **o 31 Awst 2026**.

ii. Cau Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, Boundary Lane, Saltney, Sir y Fflint CH4 8NT, **o 31 Awst 2026**.

iii. Mae'r ddwy ysgol bresennol yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd, ac nid oes ganddynt unrhyw gymeriad crefyddol dynodedig.

iv. Sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg newydd (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Ysgol Gynradd newydd Saltney") ar **1 Medi 2026** i'w chynnal gan Gyngor Sir y Fflint. Bydd yn gweithredu ar draws safleoedd presennol Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Bydd yr ysgol newydd yn darparu ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed.

v. Bwriedir adeiladu adeilad ysgol newydd wedi hynny ar dir yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Disgwylir i'r cyfleusterau newydd gael eu cwblhau erbyn 1 Medi 2028, ac ar yr adeg honno bydd yr ysgol yn trosglwyddo i'r adeilad newydd.

vi. Nifer y derbyniadau ar gyfer y Grŵp Oedran Derbyn yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y gweithredir y cynigion fydd 45.

vii. Cyfanswm capasiti'r ysgol newydd fydd 315 o ddisgyblion llawn amser, ynghyd â 30 o leoedd meithrin llawn amser.

viii. Cyngor Sir y Fflint fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol newydd a bydd trefniadau derbyn yn cael eu trin yn unol â Pholisi Derbyn Cyngor Sir y Fflint. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dewis ar sail dawn na system bandio disgyblion.

ix. Bydd Cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Sir y Fflint. Gellir gweld y manylion yn:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx

**2. Ymgynghoriad**

Cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael yn:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymuned wedi'u cynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae copïau ar gael yn yr un ddolen uchod.

**3. Cludiant a Threfniadau Amgen**

Bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd yn cael cynnig lleoedd yn Ysgol Gynradd newydd Saltney, Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint.

Bydd yr ysgol newydd hon yn gweithredu ar y ddau safle presennol i ddechrau, nes bydd yr adeilad newydd yn cael ei gwblhau, gyda'r bwriad o orffen ym mis Medi 2028.

Bydd Cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau ar gyfer disgyblion cymwys yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Sir y Fflint.

**4. Gweithredu a Gwrthwynebiadau**

i. Cynigir y bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2026.

ii. O fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn **5 Rhagfyr 2025**, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.

iii. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Gyngor Sir y Fflint, naill ai drwy'r post neu drwy e-bost, gan ddefnyddio'r cyfeiriadau isod:

Drwy'r post:

Y Tîm Moderneiddio Ysgolion

Cyngor Sir Y Fflint

Tŷ Dewi Sant

Parc Dewi Sant

Ewlo

Sir y Fflint

CH5 3FF

E-bost:

saltneyconsultations@flintshire.gov.uk

Llofnod:

**Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint**

Dyddiedig: 7 Tachwedd 2025

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r nodyn hwn yn ffurfio rhan o'r Hysbysiad ond fe'i cynigir fel esboniad)

**Cefndir a Chynnig**

Mae Cyngor Sir y Fflint, sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Lleol, yn cynnig ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Mae'r cynnig yn cynnwys cau'r ddwy ysgol bresennol a sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg newydd, wedi'i chyfuno, ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed.

**Gweithredu**

Bydd y cynnig yn dod i rym ym mis Medi 2026, gyda'r ysgol newydd yn gweithredu ar draws dau safle'r ysgolion presennol i ddechrau. Bydd cyfleuster newydd pwrpasol yn cael ei adeiladu ar dir ar safle Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, sydd i agor ym mis Medi 2028.

**Rhesymeg**

Cynigir yr ad-drefniant hwn mewn ymateb i'r lleoedd gwag sylweddol presennol a disgwyliedig yn yr ysgolion presennol, yn ogystal â phroblemau o ran cyflwr ac addasrwydd sy'n effeithio ar y ddau safle. Bydd sefydlu un ysgol fodern yn gwella ansawdd, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd addysg gynradd yn ardal Saltney.

**Buddion Addysgol a Chymunedol**

Bydd yr ysgol newydd yn gyfleuster o'r radd flaenaf, carbon-niwtral, a chost-effeithiol, wedi'i gynllunio i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, gan ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu ac adnoddau gwell i ddisgyblion a staff.

**Cludiant a Derbyniadau**

Bydd derbyniadau a chludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gael eu gweinyddu yn unol â pholisïau cyfredol Cyngor Sir y Fflint.

**Mwy o Wybodaeth**

Gellir cael mwy o wybodaeth am y cynigion hyn gan:

Y Tîm Moderneiddio Ysgolion

Cyngor Sir Y Fflint

Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF

Rhif ffôn: 01352 704018 / 704014

E-bost: saltneyconsultations@flintshire.gov.uk